

Adroddiad Monitro Blynyddol 2025

Cynnwys

Cynnwys	2
1. Crynodeb	3
2. Cefndir	5
3. Methodoleg	7
4. Adolygiad y Cynllun Datblygu Lleol	8
5. Newidiadau i Bolisi Cenedlaethol	11
6. Niwtraliaeth Maeth	12
7. Cyflenwi Tai	14
8. Monitro Deilliannau	20
Atodiad 1 – Perfformiad Polisi Lleol	26
Atodiad 2 – Monitro Amcanion Gwerthuso Cynaliadwyedd	56
Atodiad 3 – Taflwybr Tai y CDLI 2025	100

Awdurdodwyd yr adroddiad gan Emlyn Jones (Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad).



Rhuthun, 31 Hydref 2025

1. Crynodeb

Mae Adroddiadau Monitro Blynnyddol yn gyfrwng pwysig i asesu cyflawniad Amcanion Cynllun Datblygu Lleol (CDLI), effeithiolrwydd polisi lleol, yn ogystal â chynnydd o ran cyflawni datblygiad disgwyliedig ar safleoedd a ddyrannwyd. Mae'r adroddiad yn trafod y cyfnod rhwng mis Ebrill 2024 a mis Mawrth 2025 a'r 11eg cylch ers mabwysiadu'r CDLI yn 2013.

Mae perfformiad Polisi Lleol (gweler Atodiad 1) ac Amcanion Gwerthuso Cynaliadwyedd (gweler Atodiad 2) yn cael eu hasesu ar sail y wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael o wahanol ffynonellau fel cofnodion cynllunio, data ystadegol ac arolygon safle. Serch hynny, mae yna gyfyngiadau gan y gallai polisi lleol unigol, er enghraifft, cael eu gorbwyso gan ystyriaethau perthnasol yn ystod y broses o benderfynu ar gais cynllunio.

Mae'r gwaith o fonitro fframwaith yn rhan sylfaenol o'r CDLI; fel y mae polisi lleol a dyraniadau safle. Mae o hefyd yn amodol ar archwiliad cynhwysfawr ar ddiwedd cam paratoi cynllun. Dim ond yn rhan o broses adolygu'r CDLI y gall elfennau unigol o'r fframwaith, er enghraifft, dangosyddion a sbardunau adolygu, gael eu diwygio. Nid yw Cyngor Sir Ddinbych wedi cwblhau adolygiad o CDLI 2006 – 2021 eto; ac felly mae'n dal i fonitro perfformiad polisi lleol a chyflawni safle yn erbyn fframwaith cynllunio a oedd yn gyfredol yn 2013.

Dylid nodi bod CDLI Cyngor Sir Ddinbych wedi cael ei fabwysiadu cyn i "Lawlyfr Cynlluniau Datblygu, Argraffiad 3" Llywodraeth Cymru gael ei gyhoeddi, sy'n golygu nad ydi'r polisi lleol na'r fframwaith monitro yn cynnwys yr holl elfennau sydd bellach eu hangen i gael eu monitro gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Cyn mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol newydd Cyngor Sir Ddinbych, mae data fel y taflwybr tai yn cael ei ddarparu fel gwybodaeth yn unig.

Mae yna dri maes pwnc a fydd angen diwygiadau yn y CDLI Newydd; fel y dangosir yn y canlyniadau monitro:

- Dylai darparu tai gyd-fynd ag amcangyfrifon poblogaeth ac aelwydydd diwygiedig LIC, yn cynnwys targedau cyflawni blynyddol newydd;
- Mynd i'r afael ag anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr; ac
- Adfywio Canol Trefi, canolbwyntio ar fynd i'r afael ag effeithiau andwyol dirywiad canolfannau manwerthu 'bricks a mortar' ar fywiogrwydd a hyfywedd canol trefi yn unol â newidiadau i bolisi cenedlaethol.

2. Cefndir

Mae Cynlluniau Datblygu Lleol yn cael eu paratoi gan Awdurdodau Cynllunio Lleol ar gyfer eu hardaloedd gweinyddol priodol i siapio'r dyluniad o gynigion cynllunio a datblygiad uniongyrchol i'r lleoliadau mwyaf cynaliadwy yn y sir. Mae'r dogfennau hyn yn nodi'r ffurfiau gwahanol o ddefnydd tir a'u graddfa twf fel y nodir gan dystiolaeth ar gyfer cyfnod y cynllun sydd tua 15 mlynedd. Yn bennaf mae Cynlluniau Datblygu Lleol yn cynnwys 'Datganiad Ysgrifenedig' a Mapiau Cynigion CDLI, sy'n dangos dynodiadau safle lleol neu genedlaethol a dyraniadau tir penodol. Mae 'Datganiad Ysgrifenedig' yn cynnwys, ymysg pethau eraill, strategaeth twf a gofodol, polisi lleol a fframwaith monitro.

Mae'r Adroddiad Monitro Blynnyddol yn adnodd pwysig i asesu bod safleoedd dynodedig wedi'u cyflenwi ar gyfer ffurf benodol o ddefnydd tir ac effeithiolrwydd polisi lleol wrth bennu proses cais cynllunio neu apeliadau cynllunio, ac felly, arddangos cynnydd tuag at gyflawni Amcanion y CDLI. Mae'r gwaith o fonitro fframwaith yn rhan sylfaenol o'r CDLI; fel y mae polisi lleol a dyraniadau safle. Mae o hefyd yn amodol ar archwiliad cynhwysfawr ar ddiwedd cam paratoi cynllun. Dim ond yn rhan o broses adolygu'r CDLI y gall elfennau unigol o'r fframwaith, er enghraifft, dangosyddion a sbardunau adolygu, gael eu diwygio. Ar wahân i bolisi lleol mae'r Adroddiadau Monitro Blynnyddol yn adrodd yn ôl i Lywodraeth Cymru ar effaith y newidiadau mewn polisi cenedlaethol ar ddatblygiad newydd.

Ym mis Chwefror 2021 fe gyflwynodd Llywodraeth Cymru haen newydd o gynlluniau datblygu ar lefel genedlaethol - "Dyfodol Cymru - Cynllun Cenedlaethol 2040". Yn cydfynd â'r darpariaethau wedi'u cynnwys yn y Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (fel y'i diwygiwyd), gweler Adran 38(4) yn Sir Ddinbych mae'r cynllun datblygu yn cynnwys Dyfodol Cymru (2021) a Chynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych 2006 - 2021. Gan fod "Polisi Cynllunio Cymru" Llywodraeth Cymru (Argraffiad 12, 2024) o bosib yn berthnasol i wneud penderfyniadau, mae wedi dod yn fwyfwy anodd i asesu perfformiad unigol polisi CDLI CSDd (2023) yn sgil polisi datblygu mwy newydd yn Nyfodol Cymru (2021) a pholisi cynllunio wedi'i ddiweddarau ym Mholisi Cynllunio Cymru (2024).

Cafodd CDLI CSDd ei fabwysiadu ar 4 Mehefin 2013. Er eu bod pedair blynedd y tu hwnt i'r cyfnod cynllunio ym mis Mawrth 2025, fe eglurodd cyn Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol mewn llythyr i Awdurdodau Cynllunio Lleol, dyddiedig 24 Medi 2020, *“Bydd cynlluniau a fabwysiadwyd cyn 4 Ionawr 2016 yn parhau ar gyfer penderfynu ynghylch ceisiadau cynllunio hyd nes bydd CDLI pellach yn eu disodli.”* Mae testun llawn llythyr Gweinidog LIC i'w weld yn Adroddiad Monitro Blyneddol CDLI CSDd 2021, gweler Atodiad 1.

Mae'n ddyletswydd ar GSDd i gynhyrchu AMB ar gyfer eu CDLI priodol o dan rwymedigaethau Adran 76 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (fel y'i diwygiwyd) ac Adran 37 Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 (fel y'i diwygiwyd). Mae'n rhaid i'r AMB gael ei gyflwyno i LIC erbyn 31 Hydref bob blwyddyn, ac mae'n rhaid ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor. Mae AMB CSDd 2025 yn cynnwys y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025 a dyma'r 11eg adroddiad i gael ei baratoi ers 2013.

3. Methodoleg

Y ddau brif ffynhonnell o wybodaeth ar sut i baratoi'r Adroddiad Monitro Blyneddol, e.e. strwythur, cynnwys a dangosyddion, ydi "Llawlyfr Cynlluniau Datblygu - Argraffiad 3" (2020) (DPM 3) Llywodraeth Cymru a Chynllun Datblygu Lleol 2006 - 2021 CSDd a fabwysiadwyd. Nid yn unig mae Pennod 8 LICD 3 yn darparu arweiniad ar strwythur ac elfennau craidd i baratoi a monitro fframwaith, ond mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth benodol ar beth sydd angen ei gynnwys yn "Taflwybr Tai", a gyflwynwyd ar ôl canslo Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 1 "Cyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai" yn 2020, a rhestr o ddangosyddion a ragnodwyd ar gyfer polisi cenedlaethol. Mae Pennod 7 CDLI CSDd yn manylu ar ddangosyddion a ddiffinnir yn lleol ac mae'n nodi targedau polisi a sbardunau adolygu drwy ddarparu'r templed ar gyfer tablau asesu yn Atodiadau 1 a 2.

Mae perfformiad Polisi Lleol (gweler Atodiad 1) ac Amcanion Gwerthuso Cynaliadwyedd (gweler Atodiad 2) yn cael eu hasesu ar sail y wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael o wahanol ffynonellau fel cofnodion cynllunio, data ystadegol ac arolygon safle.

Er hynny mae cyfyngiadau ac mae'n hanfodol bod yn ystyrlon ohonyn nhw wrth ddod i gasgliadau o ran perfformiad lleol:

- Data a gesglir gan drydydd partiön (e.e. amser, amllder, pwrpas, diwygiadau);
- Sicrhau ansawdd; neu
- Fe allai ystyriaethau materol fod wedi rhoi blaenoriaeth dros bolisi lleol yn ystod y broses benderfynu.

4. Adolygiad y Cynllun Datblygu Lleol

Fe baratowyd CDLI CSDd yn unol ag amcanion polisi cenedlaethol, rhaglenni LIC a sail tystiolaeth eu bod i gyd yn gymwys pan gafodd y cynllun ei fabwysiadu. Fodd bynnag, mae polisi a rhaglenni cenedlaethol, yn ogystal â thystiolaeth empirig, wedi newid ers mis Mehefin 2013. Ar wahân i adolygiad o'r CDLI nid oes dewisiadau eraill i addasu'r fframwaith monitro i adlewyrchu unrhyw newidiadau.

Er enghraifft, cafodd Nodyn Cyngor Technegol 1 "Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai" ei ganslo yn 2020, gan gynnwys gofyniad y polisi i gynnal cyflenwad tir am 5 mlynedd. Yn dilyn hynny, cyflwynwyd "Taflwybrau Tai" fel dewis arall pan gafodd Llawlyfr Cynlluniau Datblygu 3 Llywodraeth Cymru ei gyhoeddi. Serch hynny, mae fframwaith monitro CDLI CSDd yn dal i gynnwys cyfeiriad at y cyflenwad tir ar gyfer tai pum mlynedd. Dylid hefyd nodi bod 'Amcangyfrifon Poblogaeth ac Aelwydydd' LIC a gyflwynwyd ar ôl mabwysiadu'r cynllun, yn llawer llai na'r rhai a ddefnyddiwyd i baratoi'r CDLI a'i gysylltu i sawl dangosydd yn y fframwaith monitro.

Mae yna dri maes pwnc a fydd angen diwygiadau yn y CDLI Newydd; fel y dangosir yn y canlyniadau monitro:

- Dylai darparu tai gyd-fynd ag amcangyfrifon poblogaeth ac aelwydydd diwygiedig LIC, yn cynnwys targedau cyflawni blynyddol newydd;
- Mynd i'r afael ag anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr; ac
- Adfywio Canol Trefi, canolbwyntio ar fynd i'r afael ag effeithiau andwyol dirywiad canolfannau manwerthu 'bricks a mortar' ar fywiogrwydd a hyfywedd canol trefi yn unol â newidiadau i bolisi cenedlaethol.

Paratowyd Adroddiad Adolygu gan CSDd yn 2017 ar y CDLI sydd wedi'i fabwysiadu, ac fe ymgynghorwyd ag aelodau'r cyhoedd ar yr argymhelliad i gynnal 'adolygiad cynllun llawn', h.y. paratoi cynllun newydd. Cafodd Adroddiad Adolygu CDLI a Chytundeb Cyflawni, yn ogystal â'r Cynllun Ymgysylltu â'r Gymuned, eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w hystyried a chafodd y Cytundeb Cyflawni a'r Cynllun Ymgysylltu â'r Gymuned eu cymeradwyo ganddynt ym Mai 2018.

Tra bod y Cyngor wedi cynnal adolygiad cynhwysfawr o'r dystiolaeth oedd yn debygol o ddylanwadu ar y cynllun newydd, fe achosodd pandemig y Coronafeirws oedi sylweddol i unrhyw gynnydd rhwng 2020 a 2022/23 gan fod adnoddau'n cael eu canolbwyntio ar fynd i'r afael â'r heriau iechyd oedd yn bodoli. Roedd angen i'r proffesiwn Cynllunio ymateb i'r heriau hyn gyda strategaethau, rhaglenni ac anghenion newydd ar sut y dylai llefydd gael eu dylunio a'u defnyddio ar ôl y pandemig.

Yn sgil cyhoeddi Dyfodol Cymru (2021) a gyflwynodd y fframwaith datblygu cenedlaethol newydd, Polisi Cynllunio Cymru Argraffiad 11 (2011), roedd angen adolygiad cynhwysfawr arall o dystiolaeth a baratowyd yn flaenorol a chydymffurfio â pholisi cenedlaethol.

Paratôdd CSDd ail Gytundeb Cyflawni gyda Chynllun Ymgysylltu â'r Gymuned a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2022. Cafodd Strategaeth a ffefrir CDLI y CDLI Newydd ei gymeradwyo gan y Cyngor ym mis Mai 2023, ac mae'n ffurfio sail i ddatblygu'r fersiwn i'w harchwilio gan y cyhoedd. Cafodd Polisi Cynllunio Cymru Argraffiad 11 ei ddisodli gan Argraffiad 12 ym mis Chwefror 2024.

Mae Dyfodol Cymru (2021) LIC "Polisi 21 - Ardal Dwf Ranbarthol - Aneddiadau Arfordirol Gogledd Cymru" yn bennaf yn diffinio tir sydd wedi'i leoli i'r gogledd o gefnffordd yr A55 fel 'ardal dwf ranbarthol' yng ngogledd Cymru. Yn ôl y fframwaith datblygu cenedlaethol, yn yr ardal yma y bydd y CDLI Newydd yn canolbwyntio ar dwf, megis preswyl neu economaidd. Serch hynny, mae ardaloedd mawr o'r tir yn agored i lifogydd dŵr, ac felly, maent wedi'u dynodi'n barthau llifogydd ar "Fap Llifogydd ar gyfer Cynllunio" Cyfoeth Naturiol Cymru.

Dechreuodd LIC waith ar adolygu TAN 15, teitl drafft 'Datblygiad, llifogydd ac erydiad arfordirol' ym mis Hydref 2019, gyda chyhoeddiad disgwylidig yn 2021. Nid diweddarau polisi ar y risg o lifogydd, yn cynnwys effaith newid hinsawdd yn unig yw diben y ddogfen ddiwygiedig, ond rhoi eglurhad o rolau a chyfrifoldebau ar gyfer sefydliadau, yn ogystal â chreu llefydd cynaliadwy wrth gynnwys 'creu lleoedd' fel y gwelir yn DC a PCC. Cafodd TAN 15 ei gyhoeddi ar 31 Mawrth 2025.

Cafodd yr oedi sylweddol gyda TAN15 effaith fawr ar ddarparu CDLI newydd i Gyngor Sir Ddinbych yn unol â'r amserlen sydd wedi'i nodi yn y Cytundeb Cyflawni gyda Chynllun Ymgysylltu â'r Gymuned. Fe ataliodd ansicrwydd mawr o ran polisi cenedlaethol a dynodiadau perygl o lifogydd y gwaith o gwblhau asesiadau o safleoedd posib a pharatoi polisi lleol ar, er enghraifft, adfywio canol trefi, twristiaeth neu ddiogelu safleoedd cyflogaeth mewn ardaloedd sy'n agored i lifogydd. Yn ystod haf 2025, mae Swyddogion CSDd dal wrthi'n asesu unrhyw effaith tebygol ar elfennau'r Strategaeth a Ffefrir a safleoedd ymgeisiol a ddewiswyd, ond nid ydynt yn cynnig unrhyw newidiadau i'r Strategaeth Ofodol. Mae yna angen pellach i ddiweddau'r Asesiad Canlyniadau Llifogydd Strategol cyn cwblhau'r CDLI drafft i'w harchwilio gan y cyhoedd.

Fe ddylid nodi nad ydi'r amserlen i lunio CDLI Newydd, fel y nodir yn LICD 3 Llywodraeth Cymru, yn sôn am newidiadau neu oedi sylweddol mewn polisiâu cenedlaethol neu lai o adnoddau mewn nifer o sefydliadau ar lefel leol.

Yn 2024/25, mae yna dal beth ansicrwydd ynglŷn â sefydlu a gweithredu Parc Cenedlaethol newydd yng ngogledd-ddwyrain Cymru. Yn ddibynnol ar y manylion gweithredol, efallai mai nad y Cyngor fydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol ar gyfer ardaloedd mawr i'r de a'r dwyrain o Ruthun, ac felly, mae'n rhaid adolygu pob elfen o'r Strategaeth a Ffefrir.

5. Newidiadau i Bolisi Cenedlaethol

Nid oedd yna newidiad i bolisi cenedlaethol yn ystod cyfnod monitro AMB 2025. Serch hynny, fe weithiodd LIC ar baratoi 'Cyfrifiannell Cyllideb Maetholion' a chanllaw ychwanegol ar Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd i fynd i'r afael â'r ôl-groniad o geisiadau cynllunio ac apeliadau sy'n parhau i aros am benderfyniad arnynt oherwydd y safonau ffosfforws newydd ar gyfer naw Ardal Cadwraeth Arbennig afonol yng Nghymru.

6. Niwtraliaeth Maeth

Gosododd Cyfoeth Naturiol Cymru safonau ffosfforws newydd ar gyfer naw ACA Afonol yng Nghymru ar 21 Ionawr 2021. Y nod yw gwella ansawdd y dŵr drwy leihau lefelau llwyth ffosfforws. Mae'r adroddiad asesu ar gydymffurfio gyda'r targedau ffosfforws llymach wedi dangos nad yw tua 38% o'r dyfroedd a arolygwyd yn ardaloedd cydymffurfio "ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid" yn cyrraedd y targedau. Tra bod Afon Dyfrdwy yn llifo drwy dde Sir Ddinbych, o Landrillo yn y gorllewin i Draphont Ddŵr Pontcysyllte yn y dwyrain, mae dalgylch/ardal sensitif ffosfforws yn gorchuddio dros 40% o'r Sir, yn cynnwys aneddiadau mwy megis Corwen a Llangollen.

Fe gyhoeddodd y corff cadwraeth natur adroddiad gyda thystiolaeth ar amonia a chydymffurfio â thargedau ansawdd dŵr ar gyfer ACA Afonydd Cymru ym mis Ionawr 2024 hefyd. Yn wahanol i ffosfforws mae gan amonia gyfradd uwch o ddirywiad yn y dŵr ac nid yw'n cronni yn y dalgylch dŵr ehangach. Os oes angen lliniaru er mwyn cadw at dargedau ansawdd dŵr, mae CNC yn cynghori awdurdodau cynllunio lleol y gellir gwneud hynny gyda chymorth trwyddedau amgylcheddol ar y pwynt rhyddhau. Nid yw niwtraliaeth maeth yn ofyniad ar gyfer amonia fel rhan o'r broses penderfynu ar geisiadau cynllunio.

Mae Rhan 6 "Asesu Cynlluniau a Phrosiectau" Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y'u diwygiwyd) yn rhoi'r ddyletswydd ar Gyngor Sir Ddinbych, fel 'Awdurdod Cymwys' (h.y. y sawl sy'n gwneud penderfyniadau), i brofi os ydi cynllun neu brosiect yn debygol o gael effaith sylweddol ar amcanion cadwraeth nodweddion safle cymwys yn yr ACA cyn rhoi caniatâd.

Roedd CDLI CSDd 2006 - 2024 yn destun Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd a mabwysiadwyd y cynllun ar y sail na fyddai'r cynllun lleol yn caniatáu ar gyfer cynigion cynllunio a allai effeithio'n andwyol ar unrhyw nodweddion safle cymwys. Ers i'r targedau newydd ar gyfer ffosfforws gael eu cyflwyno ar ôl i'r CDLI gael ei fabwysiadu yn 2013, ni all Swyddogion ddibynnu ar Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd y CDLI gwreiddiol i ddod i'r casgliad nad yw cynigion cynllunio, sydd yn unol â pholisi lleol neu wedi'u lleoli ar ddyraniadau safle penodol, yn effeithio'n sylweddol ar amcanion cadwraeth ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid.

Ymunodd y Cyngor â'r Bwrdd Rheoli Maeth yr Afon Dyfrdwy (BRhM) ym mis Medi 2022. Mae Byrddau Rheoli Maeth (BRhM) yn bartneriaethau strategol a hirdymor gyda'r prif amcan o sicrhau gwelliannau mewn ansawdd dŵr a statws cadwraeth nodweddion cymhwyso ACA ledled y dalgylch. Yn 2024/25, cafodd Cynllun Rheoli Maeth (CRhM) ei greu i ddarparu'r sail dystiolaeth sydd ei angen er mwyn deall y problemau sy'n benodol i'r dalgylch ac adnabod y mesurau mwyaf effeithiol sydd fwyaf amlwg o ran eu cyflawni. Bydd y ddogfen yn helpu CSDd i adnabod y llefydd mwyaf cynaliadwy i ddarparu twf, h.y. preswyl ac economaidd, dros oes y CDLI Newydd. Ar ben hynny, mae datblygwyr yn gallu dod o hyd i wybodaeth ar fesurau lliniaru priodol ac effeithiol er mwyn sicrhau bod niwtraliaeth maeth yn rhan o'r ddarpariaeth.

Er bod gwella ansawdd dŵr yn amcan amgylcheddol, mae Cynllunwyr hefyd yn cael eu herio i ddangos eu bod yn cyflawni datblygiad yn rhan o CDLI Newydd mewn ardaloedd sy'n sensitif o ran ffosfforws.

7. Cyflenwi Tai

Roedd “Amcangyfrifon poblogaeth ac aelwydydd” LIC a TAN 1 “Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai” yn hanfodol wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol 2006-2021. Ar wahân i sefydlu sail ar gyfer y twf tai yn gyffredinol yn y Sir mae’n ofynnol ar yr Awdurdodau Lleol i lunio cyd-astudiaethau argaeledd tir ar gyfer tai yn flynyddol, ac adrodd ar y gwaith o gwblhau tai yn erbyn gofyniad ‘cyflenwad tir ar gyfer tai 5 mlynedd’.

Ers 2015, nid yw CSDd wedi llwyddo i gwrdd â’r targed tai blynyddol ac i adrodd ar ‘argaeledd tir ar gyfer tai’ 5 mlynedd neu’n hirach mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol yn y gorffennol. Mae Adroddiad Adolygu’r CDLI yn nodi’r diffyg parhaus o ‘gyflenwad tir ar gyfer tai am 5 mlynedd’ fel un o’r prif resymau dros adolygu’r CDLI. Yn ogystal, mae’n gwneud sylwadau ar ddarparu’r Strategaeth Twf CDLI dros weddill cyfnod y cynllun ac yn tynnu sylw at elfennau’r cynllun sydd angen eu hystyried wrth baratoi CDLI Newydd.

“Bydd angen i’r Strategaeth Twf adlewyrchu ar yr angen yn y dyfodol o ran yr amcangyfrifon poblogaeth ac aelwydydd diwygiedig. Mae’n amlwg bod y lefel twf blynyddol yn afrealistig a ddim yn cwrdd â’r twf a ragwelwyd i ddechrau dros weddill oes y Cynllun.”

Ffynhonnell: Adroddiad Adolygu’r CDLI (2017), paragraff 4.13

Penderfynodd LIC i ohirio TAN 1 yn 2020, gan gynnwys y gofyniad gorfodol i lunio Cyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai ac i roi gwybod am ffigwr blynyddol cyflenwad tir ar gyfer tai yn yr AMB. Fodd bynnag, mae Cyngor Sir Ddinbych wedi parhau i lunio Cyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai oherwydd ei werth wrth fonitro cyfraddau cwblhau blynyddol a dosbarthiad gofodol datblygiadau. Mae gwybodaeth ystadegol yn hanfodol ar gyfer llywio’r gwaith o lunio’r CDLI Newydd.

“Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, dylai’r Awdurdodau Cynllunio Lleol hynny a fabwysiadodd eu CDLI cyn i’r LICD (Argraffiad 3) gael ei gyhoeddi, ddefnyddio dull y Gyfradd Flynyddol Gyfartalog fel y prif ddangosydd i fesur faint o dai a gyflenwyd, a chynnwys y dull taflwybr mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol yn y dyfodol.”

Ffynhonnell: “Llyfryn Cynlluniau Datblygu, Argraffiad 3” LIC (2020), paragraff 8.14

Gan fod CDLI CSDd wedi cael ei fabwysiadu cyn cyhoeddi LICD 3 LIC, nid yw'n cynnwys taflwybr tai, gan gynnwys Cyfradd Adeiladu Flynyddol a Ragwelir wedi ei mireinio, a fyddai'n creu pwynt cyfeirio ar gyfer unrhyw gymhariaeth yn y dyfodol rhwng ffigurau cyflenwi tai blynyddol. Wedi dweud hynny, mae AMB 2025 yn cynnwys 'taflwybr tai' er gwybodaeth yn unig, gweler Atodiad 3. Yn ychwanegol, fe fydd yn ffynhonnell hollbwysig o ddata wrth drafod capasiti adeiladwyr tai lleol i gyflenwi aneddiadau ar sail blynyddol wrth archwilio'r CDLI Newydd.

Ar ôl Mabwysiadu'r CDLI, cyhoeddodd LIC amcangyfrifon poblogaeth ac aelwydydd sydd wedi dangos fod y ffigurau a ddefnyddiwyd yn wreiddiol i benderfynu'r nifer terfynol o dai sydd eu hangen yng nghyfnod y cynllun wedi cael eu gor-amcanestyn yn sylweddol. Yn seiliedig ar ffigurau graddol sydd wedi'u cynnwys yn y CDLI, 500 uned yw'r Gyfradd Flynyddol Gyfartalog (CFG) yn Sir Ddinbych.

Er mwyn enghreifftio'r lefel o or-amcanestyniad mewn ffigurau twf tai CDLI, mae'r paragraffau canlynol ac Atodiad 3 nid yn unig yn dangos darpariaeth tai ar sail y CDLI, ond hefyd yn cynnwys gwybodaeth i'w gymharu ar gyfer y CDLI Newydd (sydd dal heb unrhyw bwysau materol o ran gwneud penderfyniadau cynllunio yn lleol).

Ym mis Mehefin 2013, mabwysiadwyd CDLI 2006 - 2021 ar y sail bod y cynllun yn mynd i ddarparu digon o ddyraniadau tir preswyl er mwyn cyflenwi 7,500 annedd dros gyfnod o 15 mlynedd. Er ei bod yn ymddangos fod yna ddiffyg cyflenwad rhifol o aneddiadau, dylid nodi bod gan 65 allan o 99 o ddyraniadau tir preswyl ganiatâd cynllunio, neu wedi cael eu hadeiladu. Mae CSDd yn parhau i feddwl y dangoswyd wedyn, bod y rhagamcanion aelwydydd a lywiodd y niferoedd tai wedi bod yn oramacanestyniad sylweddol.

Mae tabl 1 yn rhestru'r rhannau sy'n ffurfio'r sail ar gyfer y cyfrifiadau cyflenwad tir yn Sir Ddinbych.

Tabl 1: Cyfansoddiadau o ran cyfrifiadau cyflenwad tir ar gyfer tai

Cydrannau	Sylwadau
Cwblhau	Mae'r ffigwr cwblhau yn cynnwys yr holl waith sydd wedi'i gwblhau a'i gofnodi yn y cyfnod monitro, yn cynnwys datblygiad ar yr holl safleoedd dynodedig a'r hap-safleoedd. Ers 2018/2019 mae tai wedi'u cwblhau yn cael eu cofnodi hefyd ar gyfer dibenion monitro darpariaeth tai ar gyfer y CDLI Newydd.
Dyrannu safleoedd ar gyfer datblygiadau preswyl	Mae'r safleoedd yn ddyraniadau tir preswyl yn y CDLI mabwysiedig ac nid ydynt yn elwa o ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygu. Rhagwelir y ddarpariaeth yn y taflwybr tai, cyfeirir at hynny yn Atodiad 3.
Banc Tir / Ymrwymadau	Mae'r rhain yn safleoedd ar gyfer datblygiad preswyl sydd wedi cael caniatâd cynllunio ond sydd heb ei weithredu eto. Rhagwelir y ddarpariaeth yn y taflwybr tai, cyfeirir at hynny yn Atodiad 3.

Tir hap-safleoedd

Mae'r rhain yn barseli o dir nad ydynt wedi eu dyrannu'n benodol ar gyfer datblygiad preswyl yn y CDLI mabwysiedig, ond gellir eu cyflwyno ar gyfer tai wrth fabwysiadu'r CDLI Newydd.

Maent yn cael eu dosbarthu fel rhai 'mawr' (10 uned neu fwy), safleoedd bach (llai na 10 uned), neu rai sydd wedi eu trawsnewid.

Mae lwfans hap-safleoedd yn seiliedig ar lefelau darparu tai yn y gorffennol (gweler Atodiad 3, tabl 2). Y ffigwr cyfartalog 5 mlynedd ar gyfer cyflenwi hap-safleoedd yn y CDLI yw 90 uned y flwyddyn. Mae'r ffigwr hap-safleoedd blynyddol arfaethedig wedi cael ei leihau i 50 uned yn y CDLI Newydd, Strategaeth a Ffefrir, er mwyn gallu gweinyddu'r cyflenwad o hap-safleoedd.


Mae canlyniadau darpariaeth tai blynyddol CSDd wedi eu rhoi mewn cyd-destun gyda dau gyfnod cynllunio: (1) y CDLI (mabwysiedig) (2006 - 2021), a (2) y CDLI Newydd (drafft) (2018 - 2033). Mae yna anomaledd gan fod y CDLI mabwysiedig eisoes pedair blynedd y tu hwnt i gyfnod y cynllun y cafodd y twf tai ei gynllunio ar ei gyfer yn 2013, ac nid oes gan y CDLI Newydd drafft unrhyw ddylanwad wrth wneud penderfyniadau, eto.

Er nad ydi'r CDLI Newydd wedi symud ymlaen yn ddigonol i allu gwneud defnydd ohono wrth wneud penderfyniadau cynllunio, dylid pwysleisio bod y Strategaeth a Ffefrir cyfatebol yn cynnig lefel llawer is o dwf preswyl o'i gymharu â'r CDLI presennol.

Mae ffigurau twf is yn golygu Cyfradd Flynyddol Gyfartalog is. Mae gwahaniaeth o 282 uned rhwng y CDLI (2006 - 2021): 500 o unedau, a'r CDLI Newydd (2018 - 2033): 218 o unedau. Yn seiliedig ar "Amcangyfrifon Poblogaeth ac Aelwydydd 2017" LIC mae CSDd yn hyderus bod lleihad yn y Gyfradd Flynyddol Gyfartalog yn cyflwyno lefel rhesymol o dwf i'r sir hyd at 2033.

Mae siart 1 yn dangos cymhariaeth rhwng tai wedi'u cwblhau (gwirioneddol/disgwyliedig) a'r Gyfradd Flynyddol Gyfartalog (CDLI/CDLI Newydd) ar gyfer y cyfnod 2018/19 i 2026/27. Dylid pwysleisio nad ydi'r ffigurau gwirioneddol a gwblhawyd yn cyrraedd targed cyfartalog Cyfradd Flynyddol Gyfartalog y CDLI o 500 o unedau mewn unrhyw flwyddyn, ond wedi mynd y tu hwnt i darged Cyfradd Flynyddol Gyfartalog y CDLI Newydd ers 2019 o 218 o unedau. Mae'r amcangyfrifon ar gyfer tai wedi'u cwblhau yn debygol o leihau yn y dyfodol am fod y cyfanswm o dir sydd wedi cael ei ddyrannu, heb ei ddatblygu ac ar gael yn barod yn y CDLI, yn lleihau. Bydd mabwysiadu'r CDLI Newydd yn y pendraw yn helpu gyda'r diffyg tir preswyl canfyddedig.

Siart 1: Tai sy'n cael eu cwblhau (gwirioneddol / disgwyliedig) ar gyfer y cyfnod 2018/19 i 2026/27



Ffynhonnell: Cyngor Sir Ddinbych (2025)

8. Monitro Deilliannau

Mae CSDd wedi paratoi AMB ar gyfer y CDLI ers 2014. Roedd canlyniadau monitro yn hanfodol ar gyfer paratoi Adroddiad Adolygu'r CDLI yn 2017, a'r penderfyniad i lunio cynllun newydd. Mae'r system cynlluniau datblygu a'r polisi cenedlaethol wedi esblygu, ac mae tystiolaeth newydd wedi dod i'r amlwg fel y gwelir yn yr AMB blaenorol a'r adrannau uchod.

Mae effaith y polisi cenedlaethol ar wneud penderfyniadau yn lleol yn cael ei fonitro ac fe adroddir yn ôl arno fel y nodir yn LICD 3 Llywodraeth Cymru. Er yn hanfodol wrth benderfynu ar y ceisiadau cynllunio, nid yw newidiadau polisi cenedlaethol yn cael eu hadlewyrchu yn y fframwaith monitro CDLI. Serch hynny, mae'r gwaith o fonitro fframwaith yn rhan sylfaenol o'r CDLI, fel y mae polisi lleol a dyraniadau safle. Mae o hefyd yn amodol ar archwiliad cynhwysfawr ar ddiwedd cam paratoi cynllun. Dim ond yn rhan o broses adolygu'r CDLI y gall elfennau unigol o'r fframwaith, er enghraifft, dangosyddion a sbardunau adolygu, gael eu diwygio. Nid yw Cyngor Sir Ddinbych wedi cwblhau adolygiad o CDLI 2006 – 2021 eto; ac felly mae'n dal i fonitro perfformiad polisi lleol a chyflawni safle yn erbyn fframwaith cynllunio a oedd yn gyfredol yn 2013.

Monitro polisi cenedlaethol

Mae LIC yn rhagnodi nifer o 'ddangosyddion craidd' y dylid eu hadrodd bob blwyddyn. Maen nhw'n cael eu hystyried i fod yn hanfodol ar gyfer asesu effaith polisi cenedlaethol ar wneud penderfyniadau ym mhob ardal awdurdod lleol ac maent wedi'u nodi yn LICD 3 Llywodraeth Cymru, "Tabl 29 - Dangosyddion".

Dylid nodi bod CDLI Cyngor Sir Ddinbych wedi cael ei fabwysiadu cyn i LICD 3 Llywodraeth Cymru gael ei gyhoeddi, sy'n golygu nad ydi'r fframwaith monitro yn cynnwys yr holl elfennau sydd bellach eu hangen i gael eu monitro gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Cyn mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol newydd Cyngor Sir Ddinbych, mae data fel y taflwybr tai yn cael ei ddarparu fel gwybodaeth yn unig.

Tabl 2: Dangosyddion Cenedlaethol

Dangosydd	Monitro Deilliannau (2024/2025)
Nifer yr anheddau fforddiadwy ychwanegol ac anheddau'r farchnad a adeiladwyd yn ardal y CDLI.	Tai ychwanegol net: 351 uned Tai fforddiadwy ychwanegol net: 215 uned
Dosbarthiad gofodol o ddatblygiadau tai.	Roedd dosbarthiad gofodol o ddatblygiadau tai yn cyd-fynd â Strategaeth y CDLI.
Lefel flynyddol y tai a gwblhawyd wedi eu monitro yn erbyn y Gyfradd Adeiladu Flynyddol a Ragwelir.	Mabwysiadwyd CDLI CSDd cyn cyhoeddi "Argraffiad 3 o Lawlyfr Cynlluniau Datblygu" yn 2013. Nid yw'n cynnwys 'taflwybr tai' gyda chyfraddau adeiladu blynyddol ar gyfer datblygiad preswyl.
Cyfanswm cronol y tai a gwblhawyd wedi ei fonitro yn erbyn y gyfradd cwblhau tai gronol ddisgwyliedig.	Mae Atodiad 3 yn cynnwys gwybodaeth fanwl ar ddarparu unedau preswyl. Mae CSDd wedi paratoi taflwybr tai yn unol â'r gofynion sydd wedi eu nodi yn y llawlyfr cynlluniau datblygu er gwybodaeth yn unig.
Y lefel o dai fforddiadwy a gwblhawyd wedi ei fonitro yn ôl targed trosfwaol y cynllun. Deiliadaeth tai fforddiadwy wedi eu cwblhau.	Mae gwybodaeth fanwl am gyflenwad anheddau'r farchnad ac anheddau fforddiadwy i'w gweld yn Atodiad 1 'Perfformiad Polisi Lleol'.
Tir cyflogaeth a ddefnyddiwyd yn erbyn dyraniadau.	Mae Strategaeth y CDLI yn darparu 59.5 hectar o dir cyflogaeth newydd ar gyfer y cyfnod 2006 – 2021.
Twf swyddi.	Nid yw'r CDLI mabwysiedig yn cynnwys unrhyw dargedau ar gyfer twf swyddi yng nghyfnod y Cynllun.
Cyflawni'r polisi tai fforddiadwy – trothwyon a thargedau canrannol ar gyfer pob ardal is-farchnad.	Nid yw'r CDLI mabwysiedig yn cynnwys unrhyw wybodaeth ynglŷn â darparu tai fforddiadwy ar gyfer ardaloedd is-farchnad yn Sir Ddinbych.
Hyfywedd	Nid yw'r ACLI yn cofnodi gwybodaeth.

Dangosydd	Monitro Deilliannau (2024/2025)
Cyfradd datblygiad ar ddyraniadau allweddol (tai a gwblhawyd yn gysylltiedig â thaflwybrau graddol a chynlluniau isadeiledd, lle bo'n briodol).	Mae Adran 7 ac Atodiad 3 yn nodi manylion y taflwybr tai (gan gynnwys cyflwyno datblygiadau fesul cam) ar gyfer y Sir, ond nid yw'n rhan o'r CDLI mabwysiedig.
Darparu isadeiledd allweddol sy'n sail i strategaeth y cynllun.	Dim.
Cwblhau safleoedd Sipsiwn a Theithwyr er mwyn diwallu'r angen a nodwyd.	Cyflawnodd y Cyngor Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru ar 24 Mai 2024. [Mae targed polisi a lefel sbarduno yn gysylltiedig â chanlyniadau 'Asesiad Marchnad Dai Leol Gogledd Orllewin Cymru' (2007)]. Cafodd caniatâd cynllunio, cyf 45/2021/0516, ei roi drwy apel am chwe llain ym mis Gorffennaf 2024.
Graddfa / math y datblygiad yn agored iawn i niwed a ganiateir o fewn ardaloedd lle ceir perygl o lifogydd C2.	Dim.

Polisi Lleol

Er mwyn helpu yn weledol wrth gyflwyno perfformiad polisi lleol, mae'r ffontiau a lliwiau canlynol wedi'u cynnwys yn y fframwaith monitro fel maen prawf ychwanegol.

Tabl 3: Dangosyddion perfformiad

Meini Prawf	Sylwadau
Coch	Perfformiad anfoddhaol; Dylai'r polisi gael ei adolygu.
Oren	Perfformiad annigonol; Mae'r polisi yn cwrdd â'r maen prawf adolygu ond mae'n fater de minimis ac yn eithriad a gyfiawnheir.
Gwyrdd	Perfformiad derbyniol: nid oes angen camau gweithredu pellach.

Mae'r tabl canlynol yn cyflwyno crynodeb o'r polisiâu lleol hynny lle mae'r canlyniad monitro yn 'GOCH' ac, felly angen eu hadolygu ar gyfer y CDLI Newydd. Mae Atodiad 1 yn cynnwys y canlyniad monitro manwl ar gyfer pob polisi lleol.

Tabl 4: Adolygiad o bolisi lleol

Dangosydd	Sylwadau
CCC 1 - Diwallu anghenion tai y Sir.	Fel y nodwyd yn Adroddiad Adolygu'r CDLI (2017), mae Strategaeth Dwf y CDLI a chyflenwad tai'r farchnad a thai fforddiadwy yn methu ar y cyflenwad (mathemategol) gwael o anheddau. Cafodd targedau cyflenwi eu gosod ar sail ffigyrau 'Amcangyfrifon Poblogaeth ac Aelwydydd' Llywodraeth Cymru a oedd yn dangos eu bod yn ffigyrau a oedd wedi eu gor-amcangyfrif yn sylweddol. Mae'r Strategaeth a Ffebrir (Mai 2023) ar gyfer y CDLI nesaf 2018 – 2033 yn nodi ffigwr blynyddol o 218 o unedau; o'i gymharu â 750 o unedau ar gyfer Cyfnod 3 yn y CDLI a fabwysiadwyd.
CCC 4/8/9 – Cynyddu nifer yr anheddau fforddiadwy newydd sy'n cael eu hadeiladu yn y Sir.	Fel y nodwyd yn Adroddiad Adolygu'r CDLI (2017), mae Strategaeth Dwf y CDLI a chyflenwad tai'r farchnad a thai fforddiadwy yn methu ar y cyflenwad (mathemategol) gwael o anheddau. Cafodd targedau cyflenwi eu gosod ar sail ffigyrau 'Amcangyfrifon Poblogaeth ac Aelwydydd' Llywodraeth Cymru a oedd yn dangos eu bod yn ffigyrau a oedd wedi eu gor-amcangyfrif yn sylweddol. Mae'r Strategaeth a Ffebrir (Mai 2023) ar gyfer y CDLI nesaf 2018 – 2033 yn nodi ffigwr blynyddol o 218 o unedau; o'i gymharu â 750 o unedau ar gyfer Cyfnod 3 yn y CDLI a fabwysiadwyd.
CCC 10 – Diwallu anghenion Sipsiwn a Theithwyr.	Cynhaliodd y Cyngor Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru ar 24 Mai 2024. Y targed gwreiddiol oedd "Bydd y Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau cyfagos i ddechrau chwilio am safle. Bydd safle addas yn cael ei ddarganfod, a chaniatâd cynllunio yn cael ei roi o fewn 18 mis ar ôl derbyn yr AMTLI gogledd-orllewin Cymru pe bai'n nodi angen penodol." Cyhoeddwyd AMTLI Gogledd Cymru yn 2007. Cafodd caniatâd cynllunio, cyf 45/2021/0516, ei roi am chwe llain drwy apêl ym mis Gorffennaf 2024.

Dangosydd	Sylwadau
HEG 6/8/9 - Cynnal a gwella bywiogrwydd a hyfywedd canol trefi.	Cyflwynodd Cynllun Cenedlaethol 2040 (2021) a Pholisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 11 (2021) newid mewn polisi cenedlaethol yn ymwneud â'r egwyddor o ddatblygu canol trefi; gan fynd i'r afael â'r dirywiad mewn defnydd manwerthu drwy gefnogi defnyddiau cyflenwol yn gryf. Mabwysiadwyd polisi lleol yn 2013 gan ganolbwyntio'n bennaf ar ddiogelu manwerthu lle'r oedd cynnydd mewn defnydd nad oedd yn ddefnydd manwerthu yn cael ei ystyried yn annymunol.
CCC 5 – Cyflenwi'r Safle Strategol Allweddol.	Daeth caniatâd cynllunio amlinellol i ben ym mis Mawrth 2021.

Amcanion Arfarniad o Gynaliadwyedd

Nid yw'r fframwaith monitro'r Arfarniad o Gynaliadwyedd yn rhan o'r CDLI mabwysiedig, ond cafodd ei ddatblygu i asesu'r effeithiau amgylcheddol ac economaidd-gymdeithasol. Disgwylir y daw monitro Amcanion Arfarniad o Gynaliadwyedd yn rhan o 'Asesiad Integredig' ac y bydd yn cael ei gyflawni ochr yn ochr â darparu'r Amcan Lles.

Mae nifer o ddangosyddion wedi cael eu datblygu ar sail y cronfeydd data sydd ar gael yn 2013. Yn bennaf roedd y data yn cael ei ddarparu ar gyfer sefydliadau gwirfoddol ac nid-er-elw. Mae achosion cyfyngedig lle nad yw monitro yn bosib bellach yn 2024 gan nad yw rhai ohonyn nhw yn darparu'r wybodaeth bellach neu'n pwysleisio dibenion eraill yn lle. Mae Atodiad 2 yn cynnwys y canlyniad monitro manwl ar gyfer pob Amcan Arfarniad o Gynaliadwyedd.

Atodiad 1 – Perfformiad Polisi Lleol

Amcan CDLI 1: Poblogaeth a Chymuned

Polisi Lleol	Targed Polisi	Dangosydd	Lefel Trothwy	Perfformiad	Sylwadau
CCC 1	Diwallu anghenion tai'r Sir.	Nifer o dai newydd wedi derbyn Caniatâd Cynllunio. Nifer o dai newydd wedi'u cwblhau'n flynyddol.	Yn achos y ddau ddangosydd: Llai na 500 y flwyddyn am 3 blynedd yn olynol yng Ngham 2, a llai na 750 y flwyddyn ar gyfer 3 blynedd yn olynol yng Ngham 3.	COCH	Cyfnod monitro: 01/04/24 i 31/03/25 Nifer o dai y dyfarnwyd caniatâd cynllunio ar eu cyfer: 145 uned. Nifer o dai a gwblhawyd: 351 uned.
CCC 1	Cynnal cyflenwad tir ar gyfer tai am 5 mlynedd.	Amherthnasol.	Amherthnasol.	Amherthnasol	Cafodd y dangosydd ei ddisodli gan y gofyniad i gynnwys 'Taflwybr Tai' yn yr Adroddiad Monitro Blyneddol (Gweler Argraffiad 3 o Lawlyfr y Cynllun Datblygu LIC).
CCC 2	Cynyddu'r nifer o safleoedd tir llwyd sy'n cael eu cyflwyno ar gyfer datblygiad.	Cyfanswm datblygiadau newydd wedi derbyn caniatâd cynllunio ar safleoedd tir llwyd.	Wedi gostwng o dan 60% ar gyfer tai a chyflogaeth (ac eithrio SSA Bodelwyddan).	Amherthnasol	Ni chasglwyd data.

Polisi Lleol	Targed Polisi	Dangosydd	Lefel Trothwy	Perfformiad	Sylwadau
CCC 4 CCC 8 CCC 9	Cynyddu nifer yr anheddau fforddiadwy newydd a adeiledir yn y Sir.	Nifer o dai fforddiadwy bob blwyddyn. Nifer o dai fforddiadwy wedi'u cwblhau bob blwyddyn.	Yn achos y ddau ddangosyddion: Llai na 165 o dai fforddiadwy y flwyddyn am 3 blynedd yn olynol yng Ngham 2, a llai na 225 y flwyddyn ar gyfer 3 blynedd yn olynol yng Ngham 3.	COCH	Nifer y tai fforddiadwy a gafodd ganiatâd cynllunio o fewn y 3 blynedd ddiwethaf: 2022 / 2023 – 118 uned; 2023 / 2024 – 10 uned; 2023 / 2024 – 143 uned. Nifer y tai fforddiadwy a gwblhawyd o fewn y 3 blynedd ddiwethaf: 2022 / 2023 – 83 uned; 2023 / 2024 – 143 uned; 2024 / 2025 – 215 uned.

Polisi Lleol	Targed Polisi	Dangosydd	Lefel Trothwy	Perfformiad	Sylwadau
CCC 10	Diwallu anghenion Sipsiwn a Theithwyr.	Amherthnasol	Pan fydd angen am safleoedd parhaol ac/neu symudol yn Sir Ddinbych yn ôl yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol yng Ngogledd Orllewin Cymru. Bydd y Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau cyfagos i ddechrau chwilio am safle. Bydd safle addas yn cael ei ddarganfod a chaniatâd cynllunio yn cael ei roi o fewn 18 mis ar ôl derbyn yr AMTLI Gogledd Orllewin Cymru pe bai'n nodi angen penodol.	COCH	Cynhaliodd y Cyngor Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru ar 24 Mai 2024. [Mae targed polisi a lefel sbarduno yn gysylltiedig â chanlyniadau 'Asesiad Marchnad Dai Leol Gogledd Orllewin Cymru' (2007)]. Cafodd caniatâd cynllunio, cyf 45/2021/0516, ei roi am chwe llain drwy apêl ym mis Gorffennaf 2024.

Amcanion 2 a 3 o'r CDLI: Economi a Swyddi

Polisi Lleol	Targed Polisi	Dangosydd	Lefel Trothwy	Perfformiad	Sylwadau
HEG 2	Cyfartaledd o 4 hectar o dir cyflogaeth yn cael ei ddefnyddio bob blwyddyn	Cyfanswm o dir cyflogaeth newydd, mewn hectarau, wedi derbyn caniatâd cynllunio.	Llai na 3 hectar y flwyddyn am 3 mlynedd yn olynol.	GWYRDD	Cyfanswm y Defnydd Dosbarth B - datblygiadau a gafodd ganiatâd cynllunio ar dir cyflogaeth dynodedig: 2022 / 2023 – 5.84 hectar; 2023 / 2024 – 8.01 hectar; 2024 / 2025 – Dim.
HEG 1; HEG 3	Diogelu tir cyflogaeth o ddefnydd sydd ddim i'w wneud â chyflogaeth.	Cyfanswm y tir cyflogaeth, mewn hectarau, sydd wedi cael ei golli i ddefnydd sydd ddim i'w wneud â chyflogaeth.	Wedi colli mwy na 5% mewn gwrthdaro gyda Pholisi HEG 3 o'i gymharu â'r cyfanswm o dir cyflogaeth, mewn hectarau, sydd ar gael yn y flwyddyn o fabwysiadu'r CDLI.	OREN	Cyfanswm y tir cyflogaeth a gollwyd ers mabwysiadu'r CDLI ym Mehefin 2013: 7.96 hectar sy'n fwy na 5% o'r holl dir cyflogaeth oedd ar gael (113.17hectar) yn 2013.

Polisi Lleol	Targed Polisi	Dangosydd	Lefel Trothwy	Perfformiad	Sylwadau
HEG 5	Cymorth i gynnal yr economi wledig.	Lefelau diweithdra.	Cynnydd mewn lefelau diweithdra mewn ardaloedd gwledig 5% yn uwch na lefelau 2011.	Amherthnasol	Mae newidiadau yn sgil cyflwyno credyd cynhwysol yn golygu nad oes modd cymharu yn uniongyrchol â ffigyrau blaenorol lwfans ceisio gwaith. Canran o bobl yn Sir Ddinbych oedd yn hawlio credyd cynhwysol ym mis Mawrth 2024 oedd 2.2%.

Amcan 4 CDLI: Manwerthu

Polisi Lleol	Targed Polisi	Dangosydd	Lefel Trothwy	Perfformiad	Sylwadau
HEG 6; HEG 9	Cyfeirio datblygiadau manwerthu newydd i ganol trefi presennol.	Cyfanswm o ofod manwerthu, swyddfeydd a hamdden mawr newydd heb ei ddyrannu ac wedi'i ganiatáu ar gyfer lleoliadau y tu allan i ganol trefi.	1 datblygiad manwerthu, swyddfa a hamdden mawr newydd yn cael ei ganiatáu y tu allan i ganol tref, sy'n groes i bolisi CDLI.	GWYRDD	Dim yn ystod y cyfnod monitro.
HEG 7	Cwrdd â'r angen meintiol ar gyfer manwerthu (heb fod yn fwyd) yn y Sir.	Darparu gofod llawr manwerthu newydd (heb fod yn fwyd) yn y Rhyl, Prestatyn a Dinbych.	Ni chafodd unrhyw brosiectau eu cyflawni yn 2015.	GWYRDD	Agorodd Parc Manwerthu Prestatyn ym mis Mawrth 2013, ac agorodd Parc Manwerthu Dinbych yn 2017.
HEG 8	Cynnal y cydbwysedd o ddefnydd manwerthu a heblaw manwerthu yng nghanol trefi.	Nifer o siopau a gollwyd oherwydd newid defnydd.	Cynnydd o 5% mewn defnyddiau heblaw am fanwerthu mewn canol tref am dair blynedd yn olynol.	OREN	Rhaid i bolisi lleol gael ei adolygu o ganlyniad i newid mewn polisi cenedlaethol yn ymwneud ag arallgyfeirio canol trefi.

Polisi Lleol	Targed Polisi	Dangosydd	Lefel Trothwy	Perfformiad	Sylwadau
HEG 6; HEG 8; HEG 9	Cynnal a gwella bywiogrwydd a hyfywedd canol trefi.	Nifer o unedau manwerthu gwag yng nghanol trefi.	Cyfradd gwag o 15% neu uwch am 3 blynedd yn olynol.	COCH	Mae pum canol tref yng Nghyffordd Dinbych lle'r oedd cyfradd y lleoedd gwag yn uwch na 15% yn ystod y tair blynedd diwethaf.
HEG 10	Diogelu siopau a gwasanaethau lleol.	Nifer o siopau neu wasanaethau lleol a gollwyd oherwydd newid defnydd.	Colli unrhyw siop neu wasanaeth lleol sy'n groes i'r polisi.	GWYRDD	Heb golli siop sy'n groes i'r polisi lleol.

Amcan 5 CDLI: Cludiant

Polisi Lleol	Targed Polisi	Dangosydd	Lefel Trothwy	Perfformiad	Sylwadau
SHC 1	Mae darpariaeth yn cael ei wneud ar gyfer mynediad diogel gan yr holl ddefnyddwyr yn cynnwys beicwyr, cerddwyr at wasanaethau cyhoeddus, cyfleusterau manwerthu a chymunedol.	Nifer o ddatblygiadau sy'n ymgorffori awgrymiadau a wnaed mewn asesiadau cludiant cysylltiedig ac archwiliadau ar ddefnyddwyr di-fodur.	Un datblygiad yn methu ag ymgorffori'r awgrymiadau a wnaed mewn asesiad cludiant ac archwiliadau ar ddefnyddwyr di-fodur.	GWYRDD	Ni ddechreuodd y Cyngor gymryd unrhyw gamau gorfodi oherwydd diffyg cydymffurfio / methu â chynnwys yr argymhellion a wnaed mewn asesiad cludiant ac/neu archwiliadau defnyddwyr di-gerbyd mewn perthynas ag unrhyw gynnig cynllunio.
